**Strategaeth Ddwyieithog/Cymraeg Cwmni Hyfforddiant Cambrian**

Mae Strategaeth Cwmni Hyfforddiant Cambrian (CHC), dros oes y Rhaglen Comisiynu Prentisiaethau 2023, yn galluogi pob dysgwr Cymraeg i gael mynediad i'r Gymraeg, a bod pob siaradwr, beth bynnag fo'u gallu, yn cael y cyfle a'r amgylchedd priodol i ddefnyddio a gwella eu sgiliau Cymraeg. Bydd unigolion yn derbyn anogaeth, cefnogaeth a datblygiad i wella eu sgiliau mewn amgylchedd cynhwysol a chadarnhaol.

Bydd CHC yn cyflawni'r strategaeth gydag ymrwymiad i adeiladu ar newidiadau a buddsoddiadau trawsnewidiol, tra'n parhau i herio ein hunain a'n hamgylchedd trwy:

**Cynllun:**

- Bwrdd Cymraeg sy'n cynnwys ac yn adrodd i aelodau'r bwrdd.
- Cynllun a strategaeth weithredol uchelgeisiol.
- Ymrwymiad ariannol i fuddsoddi yn sgiliau Cymraeg staff a dysgwyr.
- Bydd CHC yn gweithredu ein nodau trwy gytundebau isgontractwr a phrosesau monitro contractau.
- Bydd CHC yn darparu arweinyddiaeth gref ac yn defnyddio ein Llysgenhadon ar gyfer datblygu sgiliau Cymraeg pob prentis ledled Cymru trwy ddata LMI a Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol.
- Bydd CHC yn sicrhau bod systemau meddalwedd cadarn i gefnogi a chofnodi methodoleg asesiadau ieithyddol a sgiliau unigolion, a Swyddogion Hyfforddi sy'n cymryd rhan wrth ddarparu fframweithiau prentisiaethau.

**Dysgu:**

- Sicrhau bod gallu dysgwr i weithio'n ddwyieithog ar lafar ac yn ysgrifenedig yn cael ei gofnodi ar ddechrau ei raglen.
- Sicrhau bod dysgwr yn gwneud defnydd llawn o'i sgiliau iaith mewn amrywiaeth o gyd-destunau cymdeithasol a ffurfiol.
- Sicrhau bod y dysgwr yn penodi eu hiaith dysgu ac asesu ar lefel sylfaenol ac i adolygu'r rhain drwy gydol y daith ddysgu gan annog datblygiad y Gymraeg.
- Cydnabod datblygiad dysgwyr o sgiliau iaith Gymraeg drwy ein seremonïau gwobrwyo mewnol a, lle bo'n briodol, enwebu ar gyfer cydnabyddiaeth allanol.
- Rhannu adnoddau Cymraeg priodol gyda dysgwyr drwy ddiweddariadau chwarterol.
- Sicrhau bod y Model Datblygu Sgiliau yn cael ei ddefnyddio yn y cynllun gweithredol o brofiadau dysgwyr o fewn taith y prentisiaeth.

**Staff:**

- Bydd CHC yn hysbysebu ac yn recriwtio swyddogion hyfforddi Cymraeg gan sicrhau bod digon o staff dwyieithog i addysgu ac asesu ar draws pob sector.
- Bydd CHC yn mapio'r holl sgiliau ysgrifennu a siarad staff drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Bydd CHC yn darparu amgylchedd i godi lefelau Cymraeg a hyrwyddo sgiliau Cymraeg staff mewn cyd-destun cymdeithasol ac addysgol.
- Bydd CHC yn dosbarthu swyddogion hyfforddi Cyymraeg ar gyfer unigolion sydd â TGAU yn y Gymraeg neu sydd yn Gymraeg iaith gyntaf ar gyfer darparu eu cymwysterau.
- Bydd CHC yn recriwtio Swyddog Cymorth y Gymraeg i weithredu gofynion y Gymraeg, cefnogi swyddogion hyfforddi gyda darpariaeth ddwyieithog ac annog sgiliau Cymraeg i gael eu datblygu gan staff.

**Darpariaeth:**

- Bydd CHC yn sicrhau darpariaeth ddwyieithog ar draws pob sector a bydd staff CHC yn ei ddarparu.
- Bydd CHC yn sicrhau bod y rholl isgontracwyr â chynllun gweithredol clir sy'n anelu at ddarpariaeth ddwyieithog ar gael ledled eu sectorau cyflenwi. Bydd CHC yn ymrwymo i gefnogi'r dysgwr hwn dros dro os oes angen.

**Adnoddau:**

- Bydd CHC yn sicrhau bod digon o adnoddau Cymraeg penodol i'r sector i ddiwallu anghenion dysgwyr a chymwysterau.
- Bydd CHC yn sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu effeithiol a chyflym i gefnogi adnoddau sy’n datblygu/newydd sydd eu hangen i fod yn Gymraeg.
- Bydd CHC yn gwneud adnoddau Cymraeg yn hygyrch i bob dysgwr.

**Cymwysterau:**


- Bydd CHC yn sicrhau bod yr holl gymwysterau a ddarperir yn cael eu mapio yn erbyn adnoddau a safonau yn y Gymraeg.
- Bydd CHC yn sicrhau bod digon o adnoddau i ddarparu cymwysterau yn y Gymraeg os oes angen.
- Bydd CHC yn sicrhau bod proses gyflenwi gadarn ar gyfer cymwysterau nad ydynt ar gael yn Gymraeg.

**Cyflogwyr:**

• Bydd CHC yn gweithio gyda chyflogwyr sy'n ymgysylltu â'r Gymraeg ac yn annog y defnydd o sgiliau Cymraeg. Nodi'r manteision, a marchnata hyn trwy sianeli cyfryngau cymdeithasol

Mae'r strategaeth hon ar gyfer Hyfforddiant Cambrian yn uchelgeisiol ac yn nodi ein hymrwymiad i yrru sgiliau Cymraeg dysgwyr yng Nghymru yn ei blaen. Bydd y strategaeth hon yn gofyn am gydbwysedd priodol rhwng ymdrechion i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg mewn modd cadarnhaol a chynhwysol, a gyrru i wella cynllunio systematig ar gyfer darpariaeth Gymraeg, a fframwaith rheoleiddio cadarn.

Mae gosod targedau hirdymor yn adlewyrchu'r ffaith nad yw gweithgareddau sydd â'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr yn digwydd dros nos: mae cynlluniau ieithyddol yn ymdrech hirdymor. Mae CHC wedi cael cryn lwyddiant wrth hyrwyddo a chyflwyno prentisiaethau yn y Gymraeg fel y dengys y data:




Mae'r dull hwn yn ein galluogi ni yn CHC i ystyried y darlun ehangach, a chanolbwyntio ar y newidiadau gwirioneddol strategol a fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf i'r iaith.

Ein nod cyffredinol yw sicrhau bod pob dysgwr sydd â'r Gymraeg iaith gyntaf neu TGAU yn Gymraeg yn cwblhau o leiaf 30% o'u cymhwyster yn y Gymraeg